

## Ffynonellau gwybodaeth a chymorth ariannol mewn perthynas â'r celfyddydau

Diweddarwyd: Mehefin 2011

### Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu ac yn cyfeirio at ffynonellau cymorth ariannol a gwybodaeth mewn perthynas â'r Celfyddydau yng Nghymru.

### Cymorth Cymru Gyfan

#### Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n dosbarthu arian gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Mae'r categorïau o grantiau a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi'u nodi isod.

#### Unigolion

- Grantiau Bach (rhwng £250 a £5,000)
- Grantiau Sylweddol (rhwng £5,001 a £20,000)
- Grantiau Hyfforddi Bach (rhwng £250 a £2,000)
- Dyfarniadau Cymru Greadigol (rhwng £5,0001 a £25,000)
- Dyfarniadau Llysgenhadon Cymru Greadigol (£25,000)

### Sefydliadau

- Grantiau Bach (rhwng £250 a £5,000)
- Grantiau Sylweddol (rhwng £5,001 a £30,000)
- Hyd at £100,000 (ar gyfer prosiectau Teithio Cenedlaethol ar raddfa fawr a Gwyliau mwy)

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cynlluniau hyn yn adran *Cymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru* y canllaw hwn.

### Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig yw Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae'n rhoi cyngor a chymorth i artistiaid a sefydliadau celf o Gymru sy'n gweithio ar lefel rhyngwladol. Mae hefyd yn bwynt cyswllt i artistiaid rhyngwladol a sefydliadau celfyddydol sy'n gweithio yng Nghymru.

Gall artistiaid a sefydliadau celfyddydol wneud cais i'r **Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol** am hyd at £3,000 tuag at gostau gweithgaredd rhyngwladol, sy'n amrywio o berfformio mewn gŵyl gerdd dramor neu arddangos gwaith newydd mewn oriel, i ddatblygu gwaith newydd gyda chwmni theatr neu brosiect preswyl.

Gellir gweld y canllaw i ymgeiswyr yn adran **Cyllido** gwefan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

#### I gael rhagor o wybodaeth:

**Canllawiau'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol**

**E-bost:** [nicola.morgan@wai.org.uk](mailto:nicola.morgan@wai.org.uk)

**Gwefan:** [www.wai.org.uk](http://www.wai.org.uk)

## Cymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru

### Unigolion

Mae gwybodaeth am chwe chynllun ariannu sy'n cael eu gweinyddu gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi'i nodi isod. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hanelu at unigolion. .

#### Grantiau Prosiect Bach (£250-£5,000)

Mae'r grant prosiect bach yn galluogi unigolion i ymchwilio i syniadau am brosiectau neu gynyddu'u gallu creadigol, artistig a phroffesiynol dros gyfnod o amser.

Os yw prosiect yn cynnwys elfen o gynhyrchu, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â chorff sy'n bartner i gyflwyno'u gwaith yng Nghymru.

Mae grantiau'n amrywio o £250 i £5,000. Fodd bynnag, £3,000 yw uchafswm y grant sydd ar gael i brosiectau ymchwil a datblygu sydd heb unrhyw gyflwyniad cyhoeddus.

#### Grantiau Hyfforddi Bach (£250-£2,000)

Mae grantiau o dan y cynllun hwn yn amrywio o £250 i £2,000 a'u nod yw cefnogi unigolion sydd am dderbyn hyfforddiant neu gomisiynu hyfforddiant yng Nghymru, y DU neu dramor.

Nod y grant hwn hefyd yw rhoi cymorth o ran hyfforddiant artistig, creadigol, technegol, busnes a marchnata yn y celfyddydau yng Nghymru

#### Grantiau Cynhyrchu a Datblygu Sylweddol (£5,001-£20,000)

Nod y grant yw rhoi cymorth i artistiaid greu cynnyrch artistig newydd mewn cydweithrediad â chorff sy'n bartner ac a fydd yn cyflwyno'u gwaith yng Nghymru.

Mae grantiau'n amrywio o £5,001 i £20,000, fodd bynnag, i brosiectau ymchwil a datblygu ar y lefel hwn; £6,00 yw uchafswm y grant sydd ar gael.

Mae'n rhaid cael cefnogaeth mentor o safon uchel a thystlythyrau annibynnol i gyd-fynd â phob cais am y grant hwn.

#### Dyfarniadau Cymru Greadigol

Mae Dyfarniadau Cymru Greadigol wedi'u cynllunio i roi cymorth i ddatblygiad artistiaid yn ystod cyfnodau allweddol yn eu gyrfa. Dim ond un o'r grantiau a nodir isod y gall unigolion ei dderbyn bob tair blynedd, wedi'i fesur o ddyddiad cychwyn y prosiect.

#### Dyfarniadau Cymru Greadigol (£5,001-£12,000)

Mae'r dyfarniadau hyn yn amrywio o £5,001 i £12,000 ac maent ar gael er mwyn galluogi artistiaid sydd wedi sefydlu enw da yn eu ffurf gelfyddydol i ddatblygu'u harfer creadigol ac i wella ac adfywio'u sgiliau, eu creadigrwydd a'u partneriaethau creadigol.

#### Prif Ddyfarniadau Cymru Greadigol (£20,000-£25,000)

Mae'r dyfarniadau hyn yn amrywio rhwng £20,000 a £25,000. Mae'n rhaid i artistiaid fodloni gofynion Dyfarniadau Cymru Greadigol i fod yn gymwys ar gyfer gwobr Prif Ddyfarniadau Cymru Greadigol. Dylai artistiaid hefyd allu arddangos hanes gyrfa da o ran cyflawniad a chyfraniad yn eu maes ymarfer proffesiynol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob prosiect gynnwys elfen gref o arbrofi gyda chynhyrchu neu sylweddoliad mewn rhyw ffurf.

#### Dyfarniadau Llysgenhadon Cymru Greadigol

Estyniad o'r strwythur cymorth presennol ar gyfer unigolion yw'r Dyfarniadau Llysgenhadon Cymru Greadigol. Fe'u rhoddir i artistiaid yng Nghymru fel cydnabyddiaeth o ragoriaeth ac arfer gorau yn eu maes. Mae'n rhaid i unigolion allu dangos eu bod wedi cwblhau darn sylweddol o waith a'u bod wedi sefydlu enw da yn eu maes. Caiff agwedd llysgenhadol y dyfarniad ei gyflawni drwy ansawdd gwaith yr artist o fewn cyd-destun rhyngwladol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am y cynlluniau uchod gan gynnwys cymhwysedd, dyddiadau cau a gwybodaeth am ariannu yn y [Canllaw Cyffredinol](#) i

## Ariannu Unigolion gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

### Sefydliadau

Mae gwybodaeth am y pedwar cynllun grant a gaiff eu gweinyddu gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi'i nodi isod. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hanelu at sefydliadau.

#### Grantiau Bach (£250-£5,000)

Mae'r lefel hwn o grant ar gyfer sefydliadau sy'n cynllunio ac yn cyflawni prosiectau peilot neu brosiectau nad ydynt ar raddfa fawr yn gyffredinol neu sy'n cael lefelau sylweddol o nawdd o ffynonellau eraill.

Mae grantiau'n amrywio o £250 i £5,000. Bydd angen i geisiadau cyntaf arddangos y gallu i reoli cronfeydd cyhoeddus yn effeithiol.

#### Grantiau Sylweddol (£5,001-£30,000)

Mae'r lefel hwn o grant ar gyfer sefydliadau sydd wedi sefydlu enw da o ran datblygu'r celfyddydau a rheoli prosiectau. Mae ar gyfer rhaglenni gwaith mwy sy'n creu datblygiad sylweddol yn sector y celfyddydau.

Mae grantiau'n amrywio o £5,001 i £30,000. £30,000 yw uchafswm y grant sydd ar gael i brosiectau rhanbarthol neu leol. Gellir ystyried ceisiadau am hyd at £50,000 ar gyfer prosiectau cenedlaethol neu draws-ranbarthol, neu ar gyfer prosiectau blaenoriaethau uchel o fewn Cynllun Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru. Gellir ystyried ceisiadau am hyd at £100,000 ar gyfer prosiectau Teithio Cenedlaethol ar raddfa fawr a Gwyliau mwy.

#### Grantiau Hyfforddi neu Fentora (£1,000-£30,000)

Mae'r grantiau hyn yn cefnogi'r ddarpariaeth o hyfforddiant neu fentora artistig, creadigol, technegol, busnes, marchnata a rheolaethol yn y celfyddydau yng Nghymru, yn ogystal â datblygu byrddau a datblygu sefydliadol.

#### Grantiau Hyfforddi neu Fentora (£250-£5,000)

Mae'r grantiau hyn yn rhoi cymorth i sefydliadau sydd am dderbyn hyfforddiant neu fentora neu gomisiynu hyfforddiant neu fentora o fewn Cymru, y DU neu dramor. Bydd y grantiau hyn hefyd yn cefnogi datblygu byrddau a datblygu sefydliadol. Mae'n rhaid i sefydliadau fod â strategaeth hyfforddi briodol ar gyfer staff, bwrdd y rheolwyr neu wirfoddolwyr, a chyllideb. Gellir ystyried ceisiadau o hyd at £10,000 os yw'r prosiect ar gyfer rhaglen fwy eang o ddatblygiad sylweddol yn unol â blaenoriaethau Cyngor Celfyddydau Cymru

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am y cynlluniau uchod gan gynnwys cymhwysedd, dyddiadau cau a gwybodaeth am ariannu yn **Arweiniad Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru i Ariannu Sefydliadau.**

## Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru (a elwid yn flaenorol yn Academi) yw'r Cwmni Cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Mae Llenyddiaeth Cymru'n cynnwys Yr Academi Gymreig – cymdeithas ysgrifenydd Cymru a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.

Gall Llenyddiaeth Cymru gynnig cymorth ariannol i sefydliadau tuag at gost digwyddiadau llenyddol o dan y cynllun cymorth, Llenorion ar Daith.

Ymhlith y digwyddiadau cymwys mae gweithdai, darlithoedd, darlleniadau, cynadleddau digwyddiadau'n ymwneud ag ysgrifennu creadigol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan:** [www.llenyddiaethcymru.org](http://www.llenyddiaethcymru.org)

## Y Cyngor Prydeinig

### Cynllun Grantiau i Artistiaid

Mae'r Cynllun Grantiau i Artistiaid yn rhoi bwrsariau bach i artistiaid o Brydain sydd wedi'u lleoli yn y DU ac sy'n ceisio arddangos eu gwaith dramor mewn mannau cyhoeddus neu fasnachol.

Noder fod y Cynllun yma wedi ei atal am gyfnod amhenodol tra bod y Cyngor Brydeinig yn ail-drafod telerau'r grant.

#### I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [Catherine.Jay@britishcouncil.org](mailto:Catherine.Jay@britishcouncil.org)

**Gwefan:** [www.britishcouncil.org](http://www.britishcouncil.org)

## Y Sefydliad PRS ar gyfer Cerddoriaeth

Y Sefydliad PRS ar gyfer Cerddoriaeth yw noddwr mwyaf cerddoriaeth newydd o bob math yn y DU, gyda'r nod o symbylu a chefnogi creu cerddoriaeth newydd yn y DU.

Mae rhai o'r grantiau sydd ar gael gan y Sefydliad PRS ar gyfer Cerddoriaeth wedi'u nodi isod.

### Dyfarniadau am Weithiau Newydd

Mae'r cynllun Dyfarniadau am Weithiau Newydd yn cefnogi'r rheini sy'n dymuno comisiynu darn newydd o gerddoriaeth gan grewr cerddoriaeth sydd wedi'u lleoli yn y DU. Mae grantiau o hyd at £15,000 ar gael, gyda'r grant cyfartalog oddeutu £3,000 - £4,000. Cynigir cymorth ar hyd yr holl broses o gomisiynu a gall gynnwys: ffioedd i gerddorion; costau ymarfer; llogi man cyfarfod; a llogi offer.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y **canllaw ymgeisio**.

### Dyfarniadau i Wyliau

Mae grantiau o hyd at £3,000 ar gael i wyliau dielw a gwyliau elusennol yn y DU sydd ag ymrwymiad i raglennu cerddoriaeth newydd y DU o unrhyw fath. Ymhlith y costau cymwys mae costau rhedeg, teithio, llety a gweinyddu, llogi offer a chostau cyffredinol eraill.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y **canllaw ymgeisio**.

### Dyfarniadau i Sefydliadau

Mae grantiau o hyd at £3,000 ar gael i sefydliadau dielw y mae gweithgaredd cerddorol newydd yn unig weithgaredd neu'n brif weithgaredd iddynt. Mae'r cynllun hwn yn ariannu sefydliadau cerdd newydd yn y DU i gyflwyno rhaglen o weithgaredd cerddorol newydd dros gyfnod o hyd at flwyddyn. Ymhlith y costau cymwys mae costau rhedeg, teithio, llety a gweinyddu, yn ogystal â chostau cyffredinol eraill.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y **canllaw ymgeisio**.

### Dyfarniadau i Grwpiau Perfformio

Mae grantiau o hyd at £3,000 ar gael i grwpiau perfformio yn y DU sy'n perfformio cerddoriaeth newydd y DU o unrhyw fath yn rheolaidd. Ymhlith y costau cymwys mae costau rhedeg a gweinyddu yn ogystal â chostau a ysgwyddwyd drwy berfformio.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y **canllaw ymgeisio**.

### Dyfarniadau i Hyrwyddwyr

Mae'r cynllun Dyfarniadau i Hyrwyddwyr yn darparu cyfraniad o hyd at £3,000 tuag at gyllideb flynyddol gyffredinol hyrwyddwyr sy'n rhaglennu cerddoriaeth newydd fyw gan grewr cerddoriaeth sydd wedi'u lleoli yn y DU yn rheolaidd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y **canllaw ymgeisio**.

## Merched sy'n Creu Cerddoriaeth

Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael tuag at greu a pherfformio cerddoriaeth newydd o unrhyw fath, sydd wedi'i ysgrifennu gan ferch sy'n byw ac yn gweithio yn y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth am yr holl gynlluniau sydd wedi'u rhestru uchod, ewch i wefan PRS ar gyfer Cerddoriaeth lle gellir dod o hyd i'r canllawiau ymgeisio hefyd:

**E-bost:** [info@prsformusicfoundation.com](mailto:info@prsformusicfoundation.com)

**Gwefan:** [www.prsformusicfoundation.com](http://www.prsformusicfoundation.com)

## Y Comisiwn Elusennau

Mae llawer o ffynonellau ariannu, gan gynnwys rhai a restrir isod, ar gael i grwpiau sydd â statws elusennol yn unig. Mae gwefan y Comisiwn Elusennau yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a phhecyn ymgeisio ar gyfer pobl sy'n dymuno cofrestru elusen.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn cynnig cyngor a chanllawiau ar y broses ymgeisio, gan gynnwys darparu dogfennau enghreifftiol a chymorth o ran pennu amcanion yr elusen.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan:** [www.charity-commission.gov.uk](http://www.charity-commission.gov.uk)

## Grwpiau a Chlybiau Cymunedol

### Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm yn darparu grantiau i sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru sy'n cefnogi chwaraeon, celf, y gymuned a'r amgylchedd.

Rhoddir nawdd yn ôl yr ardal ddaearyddol y mae gan sefydliad gylch gwaith i ymdrin â hi. Nododd yr Ymddiriedolaeth dri chategori o sefydliadau:

- Sefydliadau Lleol - Mae dyfarniadau o hyd at £2,500 ar gael i sefydliadau sydd â chylch gwaith i wasanaethu'u cymuned neu dref leol.
- Sefydliadau Rhanbarthol – Mae dyfarniadau o hyd at £7,500 ar gael i sefydliadau sydd â chylch gwaith i ymdrin â rhanbarth neu ardal awdurdod lleol o Gymru.
- Sefydliadau Cenedlaethol - Mae dyfarniadau o hyd at £12,500 ar gael i sefydliadau sydd â chylch gwaith i ymdrin â Chymru gyfan ac sy'n gweithredu yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am **y cylchoedd ariannu** gan gynnwys dyddiadau cyflwyno drwy'r linc uchod neu o wefan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [MSCT@fusionuk.org.uk](mailto:MSCT@fusionuk.org.uk)

**Ffôn:** (029) 2049 4963

**Gwefan:** [www.millenniumstadiumtrust.co.uk](http://www.millenniumstadiumtrust.co.uk)

Neu gweler y ddogfen **Ffurflen Gais a Chanllawiau**.

### Rhaglen Stiwdio Safle

Mae Rhaglen Stiwdio Safle yn ceisio datblygu arfer artistig mewn meysydd a oedd heb eu hymchwilio'n flaenorol gan artistiaid yng Nghymru neu heb eu hymchwilio'n ddigonol. Fe'i cynlluniwyd i roi artistiaid mewn cysylltiad â chymunedau mewn amgylchedd newydd ac i greu partneriaethau creadigol a chynhyrchiol newydd gyda sefydliadau, artistiaid a phobl broffesiynol eraill sy'n berthnasol i'r amgylchedd lle caiff y prosiect ei leoli.

Yr uchafswm ariannu ar gyfer unrhyw brosiect (ar wahân i amgylchiadau eithriadol) yw £15,000 a byddai'r rhan fwyaf o brosiectau'n cael llawer llai, wedi'i gapio ar 50 y cant o'r costau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [walt.warrilow@safle.com](mailto:walt.warrilow@safle.com)

**Gwefan:** [www.safle.com](http://www.safle.com)



## Sefydliad Clore Duffield

Mae grantiau o rhwng £5,000 a £1 miliwn ar gael i elusennau cofrestredig sy'n cefnogi'r sector diwylliannol, gan gynnwys y celfyddydau perfformio.

I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [info@cloreduffield.org.uk](mailto:info@cloreduffield.org.uk)

**Gwefan:** [www.cloreduffield.org.uk](http://www.cloreduffield.org.uk)

## Dyfarniadau Barddoniaeth a Llenyddiaeth Clore.

Mae Dyfarniadau Barddoniaeth a Llenyddiaeth Clore yn darparu grantiau o rhwng £1,000 a £10,000 ar gyfer mentrau barddoniaeth a llenyddiaeth sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc o dan 19 oed ledled y DU.

Mae'r cynllun hwn ar agor i elusennau cofrestredig, ysgolion, cwmnïau celfyddydol proffesiynol neu amatur, sefydliadau dielw a grwpiau cymunedol. Ni ddylai cyfanswm costau'r prosiect fod yn fwy na £20,000.

I gael rhagor o wybodaeth:

**Canllaw Ymgeisio**

**E-bost:** [info@cloreduffield.org.uk](mailto:info@cloreduffield.org.uk)

**Gwefan:** [www.cloreduffield.org.uk](http://www.cloreduffield.org.uk)

## Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward yn dyfarnu grantiau i fentrau elusennol lleol ar raddfa fach yn y DU yn y meysydd canlynol: grwpiau cymdeithasol a lleiafrifoedd ethnig; Carcharorion a chyn-droseddwy; Digartrefedd; Pobl sy'n profi trais neu gamdriniaeth; allgymorth Celfyddydol; prosiectau Anabledd; prosiectau Amgylcheddol; a dibyniaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig grantiau bach unigol o rhwng £100 a £5,000 ac mae grantiau mawr o dros £5,000 ar gael dros dair blynedd ar y mwyaf. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnig grantiau cynllun chwarae gwyliau haf unigol o rhwng £500 a £1,000 bob blwyddyn.

Croesewir ceisiadau gan elusennau cofrestredig sydd â throsiant blynyddol o lai na £250,000.

I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [contact@woodwardcharitabletrust.org.uk](mailto:contact@woodwardcharitabletrust.org.uk)

**Gwefan:** [www.woodwardcharitabletrust.org.uk](http://www.woodwardcharitabletrust.org.uk)

## Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington

Mae Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington yn dyfarnu grantiau o rhwng £1,000 a £3,000 i sefydliadau elusennol yn y DU a thramor, drwy amrywiol brosiectau: plant, ieuenctid, yr henoed, meddygol, cerdd a'r celfyddydau, cymunedol ac anabledd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cylchdro tair blynedd o gategoriâu ar gyfer ceisiadau. Prosiectau'n ymwneud â cherdd a'r celfyddydau yw blaenoriaethau ariannu'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011.

I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [admin@austin-hope-pilkington.org.uk](mailto:admin@austin-hope-pilkington.org.uk)

**Gwefan:** [www.austin-hope-pilkington.org.uk](http://www.austin-hope-pilkington.org.uk)

## Ymddiriedolaeth Elusennol Fidelio

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Fidelio yn darparu grantiau o hyd at £5,000 i helpu unigolion a sefydliadau o allu eithriadol yn y DU na allent, fel arall, gynnal prosiect neu weithgaredd artistig heb gymorth ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [fidelio@act.eu.com](mailto:fidelio@act.eu.com)

**Gwefan:** [www.fideliocharitabletrust.org.uk](http://www.fideliocharitabletrust.org.uk)

## IDEASTAP

### Arloeswyr y Gronfa Syniadau

Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth o hyd at £1,000 i brosiectau sy'n ysbrydoli, yn wreiddiol ac yn arloesol ac y gellir eu cyflawni ym mhob disgyblaeth greadigol yn y DU. Caiff ceisiadau o bob maes creadigol eu

hystyried.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [info@ideastap.com](mailto:info@ideastap.com)

**Gwefan:** [www.ideastap.com](http://www.ideastap.com)

## Elephant Trust

Mae'r Elephant Trust yn dyfarnu grantiau o hyd at £2,000 i artistiaid, sefydliadau ac orielau bach o fewn y Deyrnas Unedig i'w gwneud yn bosibl i artistiaid a'r rheini sy'n cyflwyno'u gwaith ymgymryd â phrosiectau a'u cwblhau pan fyddant yn rhwystredig gan ddiffyg arian.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i helpu artistiaid a sefydliadau sy'n gadael y drefn ac yn dangos posibiliadau newydd, gwahanol a dychmygus.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [ruth@elephanttrust.org.uk](mailto:ruth@elephanttrust.org.uk)

**Gwefan:** [www.elephanttrust.org.uk](http://www.elephanttrust.org.uk)

## Sefydliad Anchor

Mae Sefydliad Anchor yn cynnig grantiau o rhwng £500 a £10,000 y flwyddyn am dair blynedd i elusennau Cristnogol sydd wedi'u cofrestru yn y DU ar gyfer prosiectau sy'n annog cynhwysiad cymdeithasol drwy weinidogaethau iachau a'r celfyddydau.

Caiff ceisiadau eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r ymddiriedolwyr ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ebrill a mis Tachwedd, ac mae angen iddynt ddod i law erbyn 31 Ionawr a 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [secretary@theanchorfoundation.org.uk](mailto:secretary@theanchorfoundation.org.uk)

**Gwefan:** [www.theanchorfoundation.org.uk](http://www.theanchorfoundation.org.uk)

## Ymddiriedolaeth Leverhulme

### Portffolio Celfyddydau

Mae'r cynllun Portffolio Celfyddydau'n cynnig amrywiaeth o ddyfarniadau a bwrsariau i gefnogi hyfforddiant proffesiynol ar gyfer myfyrwyr celf talentog iawn yn y Deyrnas Unedig. Ni nodir unrhyw gyfyngiadau ariannu uchaf nac isaf.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [adean@leverhulme.ac.uk](mailto:adean@leverhulme.ac.uk)

**Gwefan:** [www.leverhulme.ac.uk](http://www.leverhulme.ac.uk)

## Ymddiriedolaeth Idlewild

Mae Ymddiriedolaeth Idlewild yn darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud ag annog y celfyddydau perfformio/cain a chadw adeiladau/gwrthrychau hardd ac eitemau o ddiddordeb hanesyddol neu bwysigrwydd cenedlaethol er lles y cyhoedd.

Mae grantiau o hyd at £5,000 ar gael i elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU neu elusennau sydd wedi'u heithrio'n gyhoeddus.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Canllaw Ymgeisio**

**E-bost:** [info@idlewildtrust.org.uk](mailto:info@idlewildtrust.org.uk)

**Gwefan:** [www.idlewildtrust.org.uk](http://www.idlewildtrust.org.uk)

## Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston

Nod Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston yw cefnogi sefydliadau elusennol yn y DU (yn enwedig yng Nghymru) sy'n gweithio mewn meysydd fel opera; cerddoriaeth glasurol; y celfyddydau gweledol a llyfrgelloedd ac archifdai. Mae grantiau o rhwng £5,000 a £25,000 ar gael.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [colwinston.trust@ntlworld.com](mailto:colwinston.trust@ntlworld.com)

**Gwefan:** [www.colwinston.org.uk](http://www.colwinston.org.uk)

## Ymddiriedolaeth Elusennol Concertina

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Concertina yn darparu grantiau o tua £500 i sefydliadau elusennol yng Nghymru a Lloegr i wella ansawdd bywyd aelodau oedrannus cymdeithas, drwy adloniant cerddorol a gweithgareddau perthynol.

### I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [info@concertinamusic.org.uk](mailto:info@concertinamusic.org.uk)

**Gwefan:** [www.concertinamusic.org.uk](http://www.concertinamusic.org.uk)

## Elusennau CHK

Mae'r elusen yn dyfarnu grantiau blynyddol sy'n dod i gyfanswm o £2 filiwn i sefydliadau elusennol yn y DU sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae tri chategori o grantiau: Grantiau Unigol; Grantiau y gellir eu hadnewyddu'n amodol; a Grantiau Mawr o dros £25,000.

### I gael rhagor o wybodaeth:

**Ffôn:** (020) 3207 7338

**Gwefan:** [www.chkcharities.co.uk](http://www.chkcharities.co.uk)

## Cronfa Meithrin Talent Coalfields

Mae Cronfa Meithrin Talent Coalfields yn darparu grantiau i roi cymorth i unigolion 16 oed a throsodd i orchfygu rhwystrau i ddatblygu'u talent yn niwydiannau creadigol ffilm, teledu, cerdd a masnachau perthynol, gyda phwyslais arbennig ar eu helpu i ddatblygu'u talent a chyflawni'u dyheadau o ran cyflogaeth.

Mae dwy lefel o grant o dan y cynllun: £500-£3,000 ar gyfer unigolion a £3,000-£10,000 ar gyfer prosiectau arian cyfatebol neu brosiectau annibynnol.

### I gael rhagor o wybodaeth:

**Ffôn:** 01443 404 455

**E-bost:** [alun.taylor@coalfields-regen.org.uk](mailto:alun.taylor@coalfields-regen.org.uk)

**Gwefan:** [www.latent2talent.org](http://www.latent2talent.org)

## Grant Addysgiadol Ymddiriedolaeth Ernest Cook

Mae Grant Addysgiadol Ymddiriedolaeth Ernest Cook yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau addysgiadol sydd wedi'u lleoli yn y DU ym meysydd cefn gwlad a'r amgylchedd, ymchwil amgylcheddol a'r celfyddydau, crefftau a phensaerniaeth.

Mae grantiau ar gael i elusennau cofrestredig, ysgolion gwladol a sefydliadau dielw.

### I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [grants@ernestcooktrust.org.uk](mailto:grants@ernestcooktrust.org.uk)

**Gwefan:** [www.ernestcooktrust.org.uk](http://www.ernestcooktrust.org.uk)

## Sefydliad Esmee Fairbairn

Nod Sefydliad Esmee Fairbairn yw gwella ansawdd bywyd pobl drwy'r DU drwy gefnogi gwaith sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau, addysg a dysgu, yr amgylchedd, a galluogi pobl ddifreintiedig i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

Caiff grantiau o unrhyw faint eu hystyried. Yn 2010, maint cyfartalog grant oedd £79,000.

### I gael rhagor o wybodaeth:

**E-bost:** [info@esmeefairbairn.org.uk](mailto:info@esmeefairbairn.org.uk)

**Gwefan:** [www.esmeefairbairn.org.uk](http://www.esmeefairbairn.org.uk)

## Sefydliad Foyle

Mae Sefydliad Foyle wedi darparu grantiau i elusennau cofrestredig ac ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac sydd â chylch gwaith craidd yn ymwneud â chelf neu ddysgu. Mae'r meysydd ariannu nodweddiadol yn cynnwys:

- helpu i wneud y celfyddydau'n fwy hygyrch drwy ddatblygu cynulleidfaoedd newydd, cefnogi teithiau, gwyliau a phrosiectau addysgiadol yn ymwneud â'r celfyddydau;
- annog gwaith newydd a chefnogi artistiaid ifanc ac artistiaid sy'n ymddangos;
- adeiladu prosiectau sy'n gwella neu sy'n rhoi



cyfarpar newydd i leoliadau celfyddydol presennol (yn hytrach na chreu cyfleusterau newydd, er na chaiff hyn ei eithrio);

- prosiectau sy'n lleihau costau cyffredinol neu sy'n helpu i greu referniw ychwanegol.

Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n dymuno gwneud cais am y Cynllun Grantiau Bach fod â throsiant blynyddol o lai na £100,000 a methu â chreu gwargedion gweithredol yn gyson neu fethu cronni arian anghyfyngedig wrth gefn i lefel sydd gyfwerth â throsiant tri mis.

Mae grant cyfartalog yn amrywio o £10,000 i £50,000.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [info@foylefoundation.org.uk](mailto:info@foylefoundation.org.uk)

**Gwefan:** [www.foylefoundation.org.uk](http://www.foylefoundation.org.uk)

## Sefydliad Garfield Weston

Mae Sefydliad Garfield Weston yn darparu arian i sefydliadau elusennol yn y DU. Nid oes unrhyw flaenoriaethau penodol ar gyfer ariannu a chaiff amrywiaeth eang o weithgareddau elusennol eu cefnogi.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Canllaw Ymgeisio**

**Ffôn:** (020) 7399 6565

**Gwefan:** [www.garfieldweston.org](http://www.garfieldweston.org)

## Elusen Goldsmiths

Mae'r elusen yn cefnogi elusennau sy'n cyflawni prosiectau elusennol, yn amrywio o'r difreintiedig mewn cymdeithas a lles cyffredinol eglwysi a'r celfyddydau.

Y grant cyfartalog i'w ddyfarnu yw £3,000.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [charity@thegoldsmiths.co.uk](mailto:charity@thegoldsmiths.co.uk)

**Gwefan:** [www.thegoldsmiths.co.uk](http://www.thegoldsmiths.co.uk)

## Elusen y Groseriaid

Mae Elusen y Groseriaid yn cynnig grantiau rhwng £1,500 - £10,000 fel rheol i elusennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU sy'n ymwneud â'r meysydd canlynol:

- rhyddhau o dlodi
- anabledd
- meddygaeth
- y celfyddydau
- treftadaeth
- yr Eglwys
- yr henoed

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [anne@grocershall.co.uk](mailto:anne@grocershall.co.uk)

**Gwefan:** [www.grocershall.co.uk](http://www.grocershall.co.uk)

## Sefydliad Elusennol Jerwood

Mae Sefydliad Elusennol Jerwood yn darparu grantiau o £50,000 i sefydliadau ar gyfer ariannu'r celfyddydau gwledol a'r celfyddydau perfformio a chefnogi artistiaid talentog yn ystod cyfnodau cynnar eu gyrfaedd.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [apply@jerwood.org](mailto:apply@jerwood.org)

**Gwefan:** [www.jerwoodcharitablefoundation.org](http://www.jerwoodcharitablefoundation.org)

## Sefydliad John Ellerman

Mae Sefydliad John Ellerman yn dosbarthu tua £5 miliwn y flwyddyn i brosiectau yn y DU yn un o'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- lechyd ac Anabledd
- Lles Cymdeithasol
- Y Celfyddydau**
- Cadwraeth
- Dramor

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau cofrestredig sydd â swyddfa yn y DU. Isafswm y grant a roddir yw £10,000 ac mae grantiau ar gael am hyd at dair blynedd.

E-bost: [barbra@ellerman.org.uk](mailto:barbra@ellerman.org.uk)  
Gwefan: [www.ellerman.org.uk](http://www.ellerman.org.uk)

## Sefydliad Laura Ashley

Mae Sefydliad Laura Ashley yn darparu grantiau i elusennau yn y DU, sefydliadau anghorfforedig a grwpiau cymunedol sy'n annog cyfranogaeth yn y celfyddydau (yn enwedig tecstilau). Nid oes unrhyw gyfyngiad penodol ar y swm y gellir ei ddyfarnu; fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sydd o dan £10,000.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
**E-bost:** [lafwales@tiscali.co.uk](mailto:lafwales@tiscali.co.uk)  
**Gwefan:** [www.lauraashleyfoundation.org.uk](http://www.lauraashleyfoundation.org.uk)

## Sefydliad Paul Hamlyn Rhaglen Gelfyddydau

Mae'r rhaglen yn cefnogi datblygu a lledaenu syniadau newydd i gynyddu profiad, mwynhad ac ymwneud pobl â'r celfyddydau yn y DU.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
**E-bost:** [information@phf.org.uk](mailto:information@phf.org.uk)  
**Gwefan:** [www.phf.org.uk](http://www.phf.org.uk)

## Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury

Mae'r ymddiriedolaethau'n cefnogi amrywiaeth o wahanol ddiddordebau, ac mae arian ar gael i sefydliadau elusennol, ysgolion, prifysgolion, sefydliadau cenedlaethol ac ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill.

Gellir gwneud cais ar unrhyw adeg, ond gallant gael eu hystyried ar adegau amrywiol yn dibynnu ar yr Ymddiriedolaeth.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
**Gwefan:** [www.sfct.org.uk](http://www.sfct.org.uk)

## Y Gronfa Gelf

Mae'r Gronfa Gelf yn rhoi cymorth i brynu gweithiau celf o bob math. Mae'r Gronfa hefyd yn hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd celf ym mywyd y genedl, ac mae'n ceisio diogelu buddiannau casgliadau cyhoeddus y DU.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
**E-bost:** [info@artfund.org](mailto:info@artfund.org)  
**Gwefan:** [www.artfund.org](http://www.artfund.org)

## Ymddiriedolaeth Wakeham

Mae grantiau o rhwng £75 a £750 ar gael i elusennau cofrestredig, a grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn y DU er mwyn helpu i ail-adeiladu cymunedau drwy gyfranogaeth gymunedol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
**E-bost:** [wakehamtrust@mac.com](mailto:wakehamtrust@mac.com)  
**Ffôn:** (01730) 821748  
**Gwefan:** [www.wakehamtrust.org](http://www.wakehamtrust.org)

## Sefydliad Wolfson

Mae Sefydliad Wolfson yn darparu grantiau o rhwng £1,000 a £3 miliwn, ar gyfer seilwaith cyfalaf fel rheol ym maes gwyddoniaeth a meddygaeth, iechyd, addysg a'r celfyddydau a dyniaethau.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
**Ffôn:** (020) 7323 5730  
**Gwefan:** [www.wolfson.org.uk](http://www.wolfson.org.uk)

## Dyfarniadau i Gerddorion Ifanc

Mae'r elusen yn cefnogi offerynwyr ifanc mwyaf talentog y DU rhwng pump ac 17 oed a all, oherwydd angen ariannol, fod yn cael eu hatal rhag cyflawni'u potensial creadigol. Mae'r elusen yn cynorthwyo plant cerddorol ddawnus mewn teuluoedd lle mae incwm yn

gyfyng, i'w helpu i ddatblygu'u potensial.

Ymhlith y costau cymwys mae gwersi cerdd preifat, ffioedd ysgolion cerdd, prynu neu logi offerynnau, costau teithio ac ategolion. Mae grantiau o rhwng £200 a £2,000 ar gael.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [caroline.harvie@a-y-m.org.uk](mailto:caroline.harvie@a-y-m.org.uk)

**Gwefan:** [www.a-y-m.org.uk](http://www.a-y-m.org.uk)

### Sefydliad LankellyChase

Mae'r Sefydliad yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau elusennol gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud â'r Celfyddydau. Mae grantiau'n amrywio o £10,000 i £45,000 a gellir gwneud cais ar unrhyw adeg.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Canllaw Ymgeisio**

**E-bost:** [enquiries@lankellychase.org.uk](mailto:enquiries@lankellychase.org.uk)

**Gwefan:** [www.lankellychase.org.uk](http://www.lankellychase.org.uk)

### Cwmni Skinners: Elusen Lady Neville

Mae Elusen Lady Neville yn darparu grantiau unigol o rhwng £500 a £1,000 i elusennau cofrestredig yn y Deyrnas Unedig, o fewn pump maes blaenoriaeth:

- Anabledd
- Treftadaeth Leol
- Y Gymuned Leol
- Y Celfyddydau Perfformio
- Y Celfyddydau Gweledol

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**E-bost:** [charitiesadmin@skidders.org.uk](mailto:charitiesadmin@skidders.org.uk)

**Gwefan:** [www.skiddershall.co.uk](http://www.skiddershall.co.uk)

## Arian y Loteri

Mae Cangen Cymru o Gronfa'r Loteri Fawr yn darparu arian ar gyfer amrywiaeth o wahanol brosiectau sy'n bodloni'r blaenoriaethau a nodir mewn polisïau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan wefan Cronfa'r Loteri Fawr **Ddarganfyddwr Arian** a sefydlwyd i alluogi unigolion a grwpiau cymunedol i ddod o hyd i arian ar gyfer amrywiaeth o brosiectau gwahanol.

Mae gan eu gwefan hefyd **dudalen cymorth i etholwyr** sy'n ceisio helpu cynrychiolwyr cyhoeddus etholedig i ddarparu gwybodaeth i'w hetholwyr am y cynlluniau ariannu sydd ar gael yn eu hardal leol.

Gellir cysylltu â Llinell Gymorth Cronfa'r Loteri Fawr ar 0845 4 10 20 30.

## GRANTnet

Gwasanaeth rhad ac am ddim yw GRANTnet gan GRANTfinder, a sefydlwyd i helpu busnesau bach, a grwpiau elusennol a chymunedol i ddod o hyd i ffynonellau ariannu sy'n addas i'w hanghenion.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**Gwefan:** [www.grantnet.com/](http://www.grantnet.com/)

## Cymorth Awdurdod Lleol

Mae manylion cyswllt 22 awdurdod lleol Cymru wedi'u nodi isod. Efallai y bydd y cymorth yn amrywio o awdurdod i awdurdod, felly dylai unigolion gysylltu â'u hawdurdodau lleol perthnasol i ganfod pa arian sydd ar gael yn eu hardal leol.

- **Cyngor Blaenau Gwent**  
Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau: 01495 322510  
E-bost: [info@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:info@blaenau-gwent.gov.uk)  
Ffôn: 01495 311556
- **Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01656 642688  
E-bost: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)  
Ffôn: 01656 643643
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**  
Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau: 01443 863266  
E-bost: 01443 864077  
Ffôn: [info@caerphilly.gov.uk](mailto:info@caerphilly.gov.uk)
- **Cyngor Caerdydd**  
Rheolwr Datblygu'r Celfyddydau: 029 2087 8513  
E-bost: [c2c@cardiff.gov.uk](mailto:c2c@cardiff.gov.uk)  
Ffôn: 02920 872000
- **Cyngor Sir Caerfyrddin**  
Prif Swyddog y Celfyddydau: 07769 741970  
E-bost: [direct@carmarthenshire.gov.uk](mailto:direct@carmarthenshire.gov.uk)  
Ffôn: 01267 234567
- **Cyngor Sir Ceredigion**  
Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Diwylliannol a Hamdden: 01970 633700  
E-bost: [reception@ceredigion.gov.uk](mailto:reception@ceredigion.gov.uk)  
Ffôn: 01545 570881/ 01970 617911
- **Cyngor Bwrdeistref Conwy**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01492 575572  
E-bost: [Information@conwy.gov.uk](mailto:Information@conwy.gov.uk)  
Ffôn: 01492 574000
- **Cyngor Sir Ddinbych**  
Swyddog Celfyddydau'r Sir: 01824 708210/ 216  
E-bost: [customerservice@denbighshire.gov.uk](mailto:customerservice@denbighshire.gov.uk)  
Ffôn: 01824 706000
- **Cyngor Sir y Fflint**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01352 704027  
E-bost: [customerservices@flintshire.gov.uk](mailto:customerservices@flintshire.gov.uk)  
Ffôn: 01352 752121
- **Cyngor Gwynedd**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01286 679721  
E-bost: N/A  
Ffurflen Ymholi  
Ffôn: 01766 771000
- **Cyngor Sir Ynys Môn**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01248 752014  
E-bost: [Y Dudalen Cysylltiadau](mailto:Y Dudalen Cysylltiadau)  
Ffôn: 01248 750057

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01685 725382  
E-bost: [customer.care@merthyr.gov.uk](mailto:customer.care@merthyr.gov.uk)  
Ffôn: 01685 725000
- **Cyngor Sir Fynwy**  
E-bost: [contact@monmouthshire.gov.uk](mailto:contact@monmouthshire.gov.uk)  
Ffôn: 01633 644644
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**  
Swyddog Gwasanaethau Diwylliannol (y Celfyddydau Cymunedol): 01639 889907  
E-bost: [contactus@npt.gov.uk](mailto:contactus@npt.gov.uk)  
Ffôn: 01639 686868
- **Cyngor Dinas Casnewydd**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01633 656637/ 638  
E-bost: N/A  
Ffurflen Ymholi  
Ffôn: 01633 656656
- **Cyngor Sir Penfro**  
Swyddog Celfyddydau'r Sir: 01437 776079  
E-bost: [enquiries@pembrokeshire.gov.uk](mailto:enquiries@pembrokeshire.gov.uk)  
Ffôn: 01437 764551
- **Cyngor Sir Powys**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01597 827564  
E-bost: [customer@powys.gov.uk](mailto:customer@powys.gov.uk)  
Ffôn: 0845 6027030
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**  
Y Tîm Datblygu Theatrau/Celfyddydau: 01443 400563  
E-bost: [customerservices@rctcbc.gov.uk](mailto:customerservices@rctcbc.gov.uk)  
Ffôn: 01443 424000
- **Dinas a Sir Abertawe**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01792 636557  
E-bost: Tudalen Cysylltiadau  
Ffôn: 01792 636000
- **Cyngor Bro Morgannwg**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01446 709805  
E-bost: N/A  
Ffurflen Ymholi  
Ffôn: 01446 700 111
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen**  
Swyddog Datblygu'r Celfyddydau: 01633 628968  
E-bost: N/A  
Ffurflen Ymholi  
Ffôn: 01495 762200
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham**  
Swyddog Diwylliant a Threftadaeth: 01978 297440  
E-bost: [contact-us@wrexham.gov.uk](mailto:contact-us@wrexham.gov.uk)  
Ffôn: 01978 292000



## Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC)

Gall y Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) perthnasol gynghori unigolion ar ffynonellau o gymorth ariannol ar gyfer yr ardal benodol honno.

Mae gwefannau'r rhan fwyaf o Gynghorau Gwirfoddol Sirol yn darparu taflenni ffeithiau am ariannu; gellir cael mynediad at y rhain o'u gwefan.

- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent**  
Ffôn: 01495 315626  
E-bost: [huw.lewis@gavowales.org.uk](mailto:huw.lewis@gavowales.org.uk)  
Gwefan: [www.gavowales.org.uk](http://www.gavowales.org.uk)
- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr**  
Ffôn: 01656 810400  
E-bost: [heidibennett@bavo.org.uk](mailto:heidibennett@bavo.org.uk)  
Gwefan: [www.bavo.org.uk](http://www.bavo.org.uk)
- **Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd**  
Ffôn: 029 2048 5722  
E-bost: [enquiries@vacardiff.org.uk](mailto:enquiries@vacardiff.org.uk)  
Gwefan: [www.vacardiff.org.uk](http://www.vacardiff.org.uk)
- **Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin**  
Ffôn: 01267 245555  
Ffacs: 01267 245500  
E-bost: [ieu@cavs.org.uk](mailto:ieu@cavs.org.uk)  
Gwefan: [www.cavs.org.uk](http://www.cavs.org.uk)
- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion**  
Ffôn: 01570 423232  
E-bost: [hazel@cavo.org.uk](mailto:hazel@cavo.org.uk)  
Gwefan: [www.cavo.org.uk](http://www.cavo.org.uk)

- **Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy**  
Ffôn: 01492 534091  
E-bost: [davidtaylor@cvsc.org.uk](mailto:davidtaylor@cvsc.org.uk)  
Gwefan: <http://cvsc.org.uk>
- **Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych**  
Ffôn: 01824 702441  
E-bost: [john@dvsc.co.uk](mailto:john@dvsc.co.uk)  
Gwefan: [www.dvsc.co.uk](http://www.dvsc.co.uk)
- **Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint**  
Ffôn: 01352 744000  
E-bost: [info@flvc.org.uk](mailto:info@flvc.org.uk)  
Gwefan: <http://flvc.org.uk>
- **Gwynedd**  
Ffôn: 01286 672626  
E-bost: [enquiries@mantellgwynedd.com](mailto:enquiries@mantellgwynedd.com)  
Gwefan: [www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)
- **Ynys Môn - Medrwn Môn**  
Ffôn: 01248 724944  
E-bost: [post@medrwnmon.org](mailto:post@medrwnmon.org)  
Gwefan: [www.medrwnmon.org](http://www.medrwnmon.org)
- **Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful**  
Ffôn: 01685 353900  
E-bost: [ian.davy@vamt.net](mailto:ian.davy@vamt.net)  
Gwefan: [www.vamt.net](http://www.vamt.net)
- **Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot**  
Ffôn: 01639 631246  
E-bost: [info@nptcvcs.org.uk](mailto:info@nptcvcs.org.uk)  
Gwefan: [www.nptcvcs.co.uk](http://www.nptcvcs.co.uk)

- **Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro**  
Ffôn: 01437 769422  
E-bost: [enquiries@pavs.org.uk](mailto:enquiries@pavs.org.uk)  
Gwefan: [www.pavs.org.uk](http://www.pavs.org.uk)
  
- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys**  
Ffôn: 01597 822191  
E-bost: [enquiry@pavo.org.uk](mailto:enquiry@pavo.org.uk)  
Gwefan: [www.pavo.org.uk](http://www.pavo.org.uk)
  
- **Rhondda Cynon Taf - Interlink**  
Ffôn: 01443 485337  
E-bost: [sjames@interlinkrct.org.uk](mailto:sjames@interlinkrct.org.uk)  
Gwefan: [www.interlinkrct.org.uk](http://www.interlinkrct.org.uk)
  
- **Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe**  
Ffôn: 01792 544000  
E-bost: [scvs@scvs.org.uk](mailto:scvs@scvs.org.uk)  
Gwefan: [www.scvs.org.uk](http://www.scvs.org.uk)
  
- **Cynghrair Gwirfoddol Tor-faen**  
Ffôn: 01495 756646  
E-bost: [peter@torfaenvoluntaryalliance.org.uk](mailto:peter@torfaenvoluntaryalliance.org.uk)  
Gwefan: [www.torfaenvoluntaryalliance.org.uk/](http://www.torfaenvoluntaryalliance.org.uk/)
  
- **Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro**  
Ffôn: 01446 741706  
E-bost: [vcvs@valecvs.org.uk](mailto:vcvs@valecvs.org.uk)  
Gwefan: [www.valecvs.org.uk](http://www.valecvs.org.uk)
  
- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam**  
Ffôn: 01978 312556  
E-bost: [chief@avow.org](mailto:chief@avow.org)  
Gwefan: [www.avow.org](http://www.avow.org)

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar wefan [Cymru Gynaliadwy](#).